
YCHWANEGU CWISIAU I PANOPTO

Mae Panopto, meddalwedd Cipio Darlithoedd y Brifysgol, bellach yn gallu ychwanegu cwisiau i recordiadau. Gall pob aelod o staff olygu recordiad Panopto ac ychwanegu cwis i'r recordiad cyhyd â bod ganddynt fynediad crëwr. Caiff y cwisiau eu hychwanegu i'r recordiadau wedyn ar ôl gwneud y recordiadau.

Bydd cwisiau o fewn recordiadau'n galluogi i wylwyr brofi eu dealltwriaeth o gysyniadau. Mae yna hefyd opsiwn i stopio'r gwylwyr rhag gallu parhau â'r fideo nes eu bod wedi cwblhau'r cwis. Byddai cwisiau'n gymorth i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth y rhai sy'n gwyllo'r recordiad a gallai fod yn ddefnyddiol mewn recordiadau crynhoi byr a recordiadau a gynlluniwyd i helpu ag adolygu yn ogystal â recordiadau rheolaidd a grëir ar gyfer darlith.

Os hoffech gael pŵl ymatebion yn ystod sesiwn ddysgu fyw, gweler ein canllaw ar feddalwedd pleidleisio. Os hoffech ddefnyddio Panopto fel dull o asesu, gweler ein Cwestiwn Cyffredin yma. Os hoffech ddefnyddio cwisiau a phrofion yn Blackboard, gweler y Cwestiwn Cyffredin hwn.

SUT MAE YCHWANEGU CWIS I RECORDIAD PANOPTO?

Dilynwch y canllawiau hyn i ychwanegu cwis i Recordiad Panopto:

CAM 1: CREU CWIS

- Ewch i abercast.aber.ac.uk a rhowch eich manylion
- Dewiswch **Pori** o'r ddewislen ar y chwith
- Dewiswch **Fy Ffolderi**
- Dewiswch y ffolder sy'n cynnwys y recordiad
- Daliwch eich llygoden o dan y recordiad yr hoffech ei ychwanegu i'r cwis a dewiswch **Golygu**
- Llywiwch i'r rhan o'r recordiad yr hoffech ei ychwanegu i'r cwis trwy glicio ar y cyrchwr
- Dewiswch **+ Ychwanegu Cwis**
- Rhowch enw i'ch cwis

CAM 2: DEWISWCH EICH MATH O GWESTIWN A GOSODWCH GWESTIWN

Ar ôl i chi greu'r cwis, rydych nawr yn barod i greu eich cwestiynau. Dewiswch y math o gwestiwn yr hoffech trwy glicio ar y gwymplen ar y dde. Mae 3 math o gwestiwn ar gael ar gyfer cwisiau yn Panopto:

- Cywir/Anghywir (gofyn cwestiwn sy'n Gywir neu Anghywir)
- Aml-ddewis (rhoi'r dewis i chi gynnwys nifer o atebion, ond dim ond un ateb y gellir ei ddewis fel yr un cywir)

- Dewis Lluosog (rhoi'r dewis i chi gynnwys nifer o atebion a gall mwy nag un ohonynt gael eu dewis fel atebion cywir)

Pan fyddwch wedi dewis eich math o gwestiwn:

- Teipiwch destun eich cwestiwn i'r maes cwestiwn
- Os ydych chi'n defnyddio Aml-ddewis neu Ddewis Lluosog, rhowch y dewisiadau ateb posibl yr hoffech eu defnyddio (Mae Cywir/Anghywir yn sefydlog)
- Dewiswch yr ateb(ion) cywir drwy dicio'r blwch drws nesaf i'r ateb/ion
- Os hoffech roi eglurhad i ateb cywir gallwch wneud hynny yn y maes dewisol
- Os ydych chi'n gofyn 1 cwestiwn yn unig, dewiswch **Gorffen**. Os hoffech ychwanegu cwestiwn arall, dewiswch **Ychwanegu Cwestiwn** a dilynwch y camau uchod

CAM 3: DEWISWCH Y GOSODIADAU AR GYFER EICH CWIS

Ar ôl i chi glicio ar **Gorffen**, gofynnir i chi ddewis y gosodiadau ar gyfer cyflwyno'r cwis. Dewiswch o'r dewisiadau canlynol:

- Caniatáu i wylwyr ail-gymryd y cwis
- Dangos gradd ar ôl cymryd y cwis
 - Caniatáu adolygu atebion cywir a'r eglurhad
- Rhwystro gwylwyr rhag gallu symud ymlaen yn y fideo nes eu bod yn ateb y cwis

Pan fyddwch yn hapus â'r gosodiadau, cliciwch ar **Gorffen**.

I gychwyn y cwis, dewiswch **Cyhoeddi** ar frig y sgrin

Bydd y cwis nawr yn y recordiad

SUT MAE MONITRO YMATEBION I'R CWIS?

Os hoffech fonitro canlyniadau'r cwis:

- Llywiwch i'r recordiad yn abercast.aber.ac.uk a dewiswch **Gosodiadau**
- Dewiswch **Canlyniadau Cwis** o'r ddewislen llywio
- Gallwch lawrlwytho Crynodeb o Ganlyniadau Cwis i ffeil Excel drwy glicio ar **Lawrlwytho**. Bydd y crynodeb o ganlyniadau'r cwis yn dangos canlyniadau ar gyfer yr holl gwisiau yn y recordiad
- Os hoffech weld y canlyniadau ar gyfer un o'r cwisiau mewn recordiad yn unig, dewiswch y cwis penodol drwy glicio ar y gwymplen drws nesaf i'r recordiad o'r Adran **Canlyniadau Manwl yn Ôl**. Gallwch wedyn gael rhagolwg o'r ymatebion a roddwyd gan wylwyr i gwestiynau o fewn y cwis penodol hwnnw.